

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

# Caerdydd: Prifddinas Greadigol
## Mapio Economi Greadigol Caerdydd
## 2016

British Council | Wales Cymru

Creative Cardiff
Caerdydd Creadigol





**Y Cyngor Prydeinig:**
Y Cyngor Prydeinig yw corff rhyngwladol y DU ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu gwybodaeth a dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y DU a gwledydd eraill. Gwnawn hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r DU ac i'r gwledydd rydym ni'n gweithio gyda nhw – gan newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin ymddiriedaeth.

Dywedodd Rebecca Gould, Pennaeth y Celfyddydau yn British Council Cymru: "Mae ymchwil Rhwydwaith Caerdydd Creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd yn allweddol i ddwysau ein dealltwriaeth o economi greadigol ffrwythlon Caerdydd a bydd yn darparu tystiolaeth empirig gadarn o statws y ddinas fel un o ganolfannau creadigol craidd y DU. Mae'r symposiwm yn cynnig cyfle i ni rannu'r ymchwil hwn gyda chynulleidfa eang; i fywiogi, ysbrydoli ac addysgu.

"Mae creadigrwydd, boed yn dod o lawr gwlad, gan sefydliadau annibynnol neu ddiwydiannau ffurfiol sefydledig, yn rhedeg drwy enaid Cymru. Mae Caerdydd, fel prif ddinas, mewn sawl ffordd yn ganolog i hyn. Mae cefnogi rhwydwaith greadigol Caerdydd yn bwysig nid yn unig o safbwynt economaidd ond hefyd o safbwynt cymdeithasol."

**Caerdydd Creadigol:**
Mae Caerdydd Creadigol yn rhwydwaith sy'n creu cysylltiadau rhwng pobl sy'n gweithio mewn unrhyw sefydliad, busnes neu swydd greadigol yn rhanbarth Caerdydd. Drwy annog pobl i weithio gyda'i gilydd, credwn y gallwn wneud Caerdydd yn gartref i greadigrwydd.

Cefnogir Caerdydd Creadigol gan Dîm Economi Greadigol Prifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â'r aelodau a'i sefydlodd, sef Canolfan Mileniwm Cymru, BBC Cymru Wales a Chyngor Caerdydd.

Tîm yr Economi Greadigol yw: Yr Athro Ian Hargreaves, yr Athro Justin Lewis, Sara Pepper, Lisa Matthews, Johann Dr Gregory, Kayleigh Mcleod a Talia Loderick.



## Cydnabyddiaeth

Casglwyd a golygwyd Mapio Economi Greadigol Caerdydd gan yr Athro Justin Lewis ac fe'i cyd-ysgrifennwyd gan Alice Taylor a Sam Murray.

Rydym hefyd am ddiolch i Dr Luke Sloan o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, Jennifer Hampton a'n tîm mapio: Emma Jones, Melissa Dickinson, Toby Mott ac Elliot Hayes.

# Cynnwys

## Cyflwyniad

Tud 4. Caerdydd: Prifddinas Greadigol - Yr Athro Ian Hargreaves

## Ymagwedd mapio

Tud 6. Mapio Economi Greadigol Caerdydd - Yr Athro Justin Lewis
Tud 8. Ein dull gweithredu

## Darganfyddiadau

Tud 10. Cryfderau a gwendidau Caerdydd
Tud 12. Pa fath o weithgarwch a ble?
Tud 14. Clystyrau creadigol Caerdydd

## Clystyrau creadigol fesul sector

Tud 16. Hysbysebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus
Tud 17. Pensaernïaeth
Tud 18. Crefftau
Tud 19. Dylunio: Cynnyrch, Graffeg a Ffasiwn
Tud 20. Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth
Tud 22. TG, Meddalwedd a Gwasanaethau Cyfrifiadurol
Tud 23. Amgueddfeydd, Orielau a Llyfrgelloedd
Tud 24. Cerddoriaeth, Perfformio a'r Celfyddydau Gweledol
Tud 26. Cyhoeddi

## Gair olaf

Page 27. Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu dinas greadigol

Yr economi greadigol yw allbwn economaidd pawb sy'n gwneud swydd a gofnodwyd yn swyddogol yn un greadigol yn (er enghraifft) y DU, fel y'i mesurir yn ystadegau swyddogol y gweithlu.

Mae'r diwydiannau creadigol yn set o sectorau busnes a enwir sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfryngau (fel cerddoriaeth, ffilm, darlledu a chyhoeddi). Ar ddiwedd y 1990au, nodwyd bod y rhain yn economaidd (yn ogystal ag yn ddiwylliannol) bwysig, a dechreuodd y Llywodraeth gasglu ystadegau gwell am y diwydiannau creadigol.



# Caerdydd: Prifddinas Greadigol

## Pan ddechreuodd Prifysgol Caerdydd gynllunio ei phrosiect economi greadigol dair blynedd yn ôl, gan adeiladu ar ddealltwriaeth o gyfres o brosiectau ymchwil, gan gynnwys REACT, y ganolfan cyfnewid gwybodaeth ym Mryste, roeddem yn gwybod bod economi greadigol y DU yn mwynhau cyfnod o dwf cryf.

Roedd ffigurau Nesta yn dangos economi greadigol a oedd yn gyfrifol am bron i 9% o holl swyddi'r DU ac a oedd yn tyfu'n sylweddol gyflymach na'r economi ar y cyfan.

Gan ei bod wedi'i adeiladu ar gryfderau craidd y DU yn y celfyddydau a diwylliant a'r diwydiannau creadigol, ac wedi cael hwb gan ynni cydweithredol hollbresennol cyfathrebu digidol, yr oeddem yn hyderus fod yr economi greadigol yn cynnig cyfle pendant ar gyfer dinas ranbarth Caerdydd, yn gallu datblygu asedau diwylliannol prifddinas gydag ynni gweithlu wedi'i lunio gan newid diwydiannol cyflym.

Mae'r economi greadigol heddiw nid yn unig yn cwmpasu'r sectorau diwydiannol fel ffilm, teledu a chwarae gemau, ond hefyd y dimensiwn creadigol sy'n gynyddol hanfodol i bob busnes, bron, o geir a siopau i fanciau. Wrth edrych ymlaen, gall gweithwyr creadigol hefyd fwynhau'r syniad, wrth i ddeallusrwydd peiriannau ehangu, y bydd eu swyddi, swyddi creadigol, ymysg y rhai gorau i wrthsefyll darfodedigrwydd.

Mae Caerdydd Creadigol, y rhwydwaith ar-lein a lansiwyd gennym ychydig dros flwyddyn yn ôl, wrth wraidd ein cenhadaeth i helpu i sicrhau bod Caerdydd a'r rhanbarth cyfagos yn gwneud yn fawr o'r cyfle hwn, gan ddarparu cysylltiadau rhwng cymunedau creadigol nad oeddynt yn ymwybodol o'r blaen o gyfleoedd croeser mwyn trosglwyddo eu sgiliau ar draws ffiniau i sectorau newydd.

Ein man cychwyn oedd adeiladu llwyfan cyfathrebu effeithiol a brofwyd gan ddefnyddwyr, i bawb sy'n gweithio yn economi greadigol y rhanbarth. Ar gyfer gwneud hyn, roedd arnom angen map gwell o lawer a gwybodaeth fanylach am weithlu creadigol sy'n cynnwys gweithwyr llawrydd, rhai rhan-amser, microfusnesau a gwirfoddolwyr, yn ogystal â llawer o swyddi mwy confensiynol mewn sefydliadau mwy o faint fel y BBC.

Trosolwg yr Athro Justin Lewis o elfennau niferus ein hymchwiliad mapio yw'r rhan fwyaf o'r cyhoeddiad hwn. Cadarnhaodd yr ymchwil rai pethau yr ydym eisoes yn eu gwybod (mae ein rhanbarth yn gryf ym maes teledu a'i gadwyn gyflenwi) a rhai pethau nad oeddem yn eu gwybod (cryfder Caerdydd mewn ardaloedd penodol o ddylunio ac mewn cerddoriaeth.) Mae ein manylu ar waith creadigol fesul cod post yn ddefnyddiol at nifer o ddibenion: i gynllunwyr dinas sy'n meddwl am ailbennu diben adeiladau treftadaeth i gymunedau newydd, i ddarparwyr mannau gwaith cyffredin a gwasanaethau eraill ac at ddibenion dylunio a lleoli cyfleoedd addysg a sgiliau. Mae'r wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i bobl ifanc sy'n dod o'r ysgol a'r brifysgol i farchnad swyddi sy'n gynyddol yn cynnwys opsiynau hunangyflogaeth gan ddechrau bywyd gwaith o reidrwydd gyda gorbenion isel.

Rydym hefyd wedi dechrau cyfweld â phobl greadigol o ran fawr o'r economi greadigol sydd y tu allan i'r diwydiannau creadigol – gan geisio dod i ddeall eu rhwydweithiau cyfathrebu a chysylltiadau'n well. Rydym yn cadw llygad barcut ar brosiect Arloesiadur Nesta ar gyfer Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio casglu a ffurfweddu data wedi'u crafu mewn ffordd sy'n galluogi llunwyr polisi i dargedu twf mewn sectorau lle y ceir mantais gystadleuol, gan gynnwys yr economi greadigol.



Fodd bynnag, ni all y map manwl a gafwyd o Gaerdydd fel Prifddinas Greadigol, fyth fod yn gyflawn. Mae'r stori yn rhy ddynamig ac amwys i hynny. Hefyd mae angen deall y patrymau newidiol ar y map yng nghyd-destun heriau parhaus y ddinas, er enghraifft, o ran seilwaith digidol a chreadigol, yn ogystal â'i chryfderau creadigol cynyddol fel y dangoswyd yn drawiadol dros y penwythnos bythgofiadwy ym mis Medi eleni pan ymgasglodd dros 200,000 o bobl yng nghanol Caerdydd ar gyfer Dinas yr Annisgwyl, cyfres o ddigwyddiadau'n seiliedig ar waith Roald Dahl, storïwr mawr Caerdydd. Cododd y cynhyrchiad hwn, a dynnodd ar dalent greadigol ledled y rhanbarth, o'r cydweithio uchelgeisiol rhwng National Theatre Wales a Chanolfan Mileniwm Cymru, dau sefydliad diwylliannol cenedlaethol a anwyd yn y cyfnod ar ôl datganoli. Mae'r ddau gorff â'u canolfan yng Nghaerdydd ac yn codi'r faner ar ran y genedl ac maent yn gweithredu yn y gymuned leiaf yn ogystal ag ym myd digidol enw da byd-eang.

Mae'n hawdd anghofio mai Caerdydd yw prifddinas ieuengaf Ewrop ac felly mae'n dal i dyfu i heriau a chyfleoedd y dynged hon. Heddiw, mae'n edrych ymlaen at dwf cyflym yn y boblogaeth – rhagwelir y bydd codi 26% yn yr 20 mlynedd nesaf. Mae rhaglen Cytundeb Dinas Cyfalaf gwerth £1.2bn yn addo i ddarparu gwasanaeth Metro Caerdydd i ychwanegu at gyfleoedd teithio i weithio yn ne Cymru ac i gyflawni'r twf hwnnw mewn ffordd sy'n gyson â gweledigaeth Cyngor Caerdydd o Gaerdydd yn ddinas sydd hawsaf byw ynddi yn y DU. Ar un ochr gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog, mae cartref Sgwâr Canolog ar gyfer y BBC yng Nghymru yn ymddangos, ochr yn ochr â Media Wales a chartref newydd i Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Prifysgol Caerdydd. Ar yr ochr draw, mae cynlluniau ar gyfer datblygiad uchelgeisiol newydd hyd lannau Afon Taf.

Ers ei sefydlu, mae Caerdydd Creadigol wedi ceisio brocera partneriaethau toreithiog a hael. Mae ein tri phartner gwreiddiol – Cyngor Dinas Caerdydd, BBC Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru – wedi ein helpu ar bob cam o'r daith hon ac rydym yn edrych ymlaen yn ystod cam nesaf ein gwaith at helpu i lunio Consortiwm Caerdydd Creadigol newydd ac uchelgeisiol, gyda chefnogaeth uniongyrchol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor y Ddinas.

Y canlyniad rydym yn ei geisio o'r mentrau hyn yw prifddinas ranbarth mwyfwy hyderus, sy'n dathlu ei asedau diwylliannol ac sy'n creu swyddi a ffyniant mewn economi greadigol ffyniannus ac arloesol.

**Yr Athro Ian Hargreaves**
**Cadeirydd yr Economi Ddigidol**



# Mapio Economi Greadigol Caerdydd

## Ceir ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd yr economi greadigol, nid yn unig o ran ei chyfraniad at ansawdd bywyd pobl, ond fel rhan benodol o'r economi yn ei rhinwedd ei hun.

Mae ffigurau diweddar a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn datgelu bod Diwydiannau Creadigol y DU, sydd wrth wraidd yr economi greadigol, werth £84.1 biliwn y flwyddyn i economi'r DU bellach. Tyfodd gan 8.9% yn 2014, bron dwbl cyfradd twf economi'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae ymchwil gan Nesta yn awgrymu bod mwy nag 8% o holl swyddi'r DU yn economi greadigol y wlad.

Mae gan Gaerdydd a Chymru draddodiadau creadigol cryf a sector diwylliannol pwysig. Yn 2009, defnyddiodd ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg (a gynhaliwyd gan BOP Consulting) ddata arolwg busnes a chronfeydd data busnesau masnachol i ddod i'r casgliad fod y 'diwydiannau creadigol yn rhan sylweddol a chynyddol o economi Caerdydd, yn cyflogi mwy o bobl na'r gwasanaethau cyfreithiol, cyfrifyddiaeth ac ymgynghori gyda'i gilydd.'

Yn dilyn adroddiad Hargreaves yn 2011, nododd Llywodraeth Cymru y Diwydiannau Creadigol fel un o naw sector economaidd i'w blaenoriaethu. Dangosodd ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015 fod 84,000 o bobl yn gweithio yn yr economi greadigol yng Nghymru. O'r rhain, roedd 53,000 yn gweithio yn y Diwydiannau Creadigol a 31,000 mewn swyddi creadigol y tu allan i'r diwydiannau creadigol. Nodwyd hefyd fod swyddi yn economi greadigol Cymru yn talu'n well na swyddi mewn sectorau eraill.

Yn 2015, cynhyrchodd Nesta ffigurau tebyg, gan amcangyfrif bod yr economi greadigol yng Nghymru yn cyfrif am 77,483 o swyddi. Awgrymodd adroddiad Nesta hefyd fod 22,324 o swyddi yn yr economi greadigol o fewn Ardal Teithio i'r Gwaith ehangach Caerdydd (gan gynnwys y Cymoedd a dinas gyfagos Casnewydd).






Llun © owenmathias.com



Mae tystiolaeth o ffynonellau amrywiol felly yn cadarnhau'r argraffiadau cynnar fod Caerdydd yn ddinas greadigol a bod ganddi sector diwylliannol o bwys sy'n rhan annatod o fywyd trefol ac yn gonglfaen i'w heconomi. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddata cyfredol ar ffurf, cymeriad ac ehangder yr economi greadigol yng Nghaerdydd - data sy'n ein caniatáu i fapio cryfderau a gwendidau ond hefyd i ddatblygu strategaethau â sail gadarn ar gyfer cefnogi a datblygu'r sector.

Mae'r diffyg data hwn hefyd yn cyfyngu ar dwf rhwydwaith creadigol eang yn y ddinas. Yn hyn o beth, mae Caerdydd mewn perygl o gael ei gadael ar ôl gan ddinasoedd eraill fel Brighton, Caeredin a Bryste lle mae rhwydweithiau creadigol yn chwarae rôl flaenllaw o ran annog arloesedd a chydweithredu.

Yr adroddiad hwn yw'r cam cyntaf yn y broses o fapio economi greadigol Caerdydd mewn mwy o fanylder. Rydym yn deall, wrth gwrs, na fydd unrhyw fap byth yn gynhwysfawr na chyflawn mewn sector sy'n newid mor gyflym, ond rydym am gynnig darlun manylach o gymeriad a lleoliad gweithgareddau creadigol amrywiol y ddinas.

Mae'r gwaith hwn yn dod ochr yn ochr â sefydlu Rhwydwaith Caerdydd Creadigol, a lansiwyd ym mis Hydref 2015, ac yn ceisio'r un math o ddata er mwyn creu cysylltiadau ar draws economi greadigol Caerdydd a'r ddinas-ranbarth.

**Yr Athro Justin Lewis,**
**Athro Cyfathrebu,**
**Prifysgol Caerdydd.**

# Ein dull gweithredu

## Roedd sawl agwedd i'n proses o gasglu data: defnyddiom gronfeydd data a oedd eisoes yn bodoli ynghyd â chyfoeth o wybodaeth leol a gafwyd drwy gwrdd â phobl ar lefel llai ffurfiol. Yn yr un modd, gwnaethom gyfuno gwaith chwilio ar-lein â chyfweliadau, cyfarfodydd ac ymgynghoriadau all-lein.

Drwy gydol y broses, roedd ein pwyslais ar gydgynhyrchu a chyd-greu gwybodaeth - dull a phroses a sicrhaodd ein bod yn ymgysylltu â phobl yn y sector yn barhaus.

Mae ein gwaith mapio yn cynnwys holl wardiau etholiadol Caerdydd yn ogystal ag ardaloedd cyfagos, gan gynnwys Penarth (pedair ward), Llandochau, Dinas Powys a Sili.

Yn ystod y gwaith mapio, cyfwelodd y tîm ymchwil ag amrywiaeth o bobl yn gweithio mewn sectorau gwahanol o fewn economi greadigol y ddinas. Roedd y cyfweliadau hyn yn cynnwys nifer o arsylwadau ynghylch cymeriad Caerdydd fel dinas greadigol.

Roedd ein prif ffynonellau ymholi yn seiliedig ar:

- **Gasglu cronfeydd data gan Gyngor Caerdydd a rhwydweithiau a oedd eisoes yn bodoli o fewn sectorau (mae mwy na 40 o rwydweithiau yn cwrdd yn rheolaidd yng Nghaerdydd).**
- **Ymchwil desg a oedd yn cynnwys mapio meddwl, chwilio ar Google ac ymchwilio i ddilynwyr Twitter sefydliadau creadigol allweddol.**
- **Cyfweliadau â ffigyrau allweddol mewn sectorau amrywiol.**
- **Arolwg ar-lein (a hyrwyddwyd ar gardiau post a ddosbarthwyd i ganolfannau celfyddydau, siopau coffi, bariau, siopau cerddoriaeth a rhwydweithiau ar-lein lleol) a dau ddigwyddiad ymgynghori.**
- **Mynychu digwyddiadau i gasglu gwybodaeth (e.e. Parti Enwebeion Gemau a Phrofiad Rhyngweithiol BAFTA Cymru, digwyddiad rhwydweithio BECTU, sioe Datblygu Gemau Cymru, Sgwrs Technoleg, Boreau Creadigol, Dydd Mawrth Digidol a chyfarfodydd What Next?).**

Gwnaethom ymdrech benodol i gasglu gwybodaeth am weithwyr llawrydd, sydd yn aml yn llai amlwg ac felly'n cael eu gadael allan o ymarferion mapio fel hyn. Mae ymchwil yn awgrymu bod gwaith llawrydd yn dod yn fwy pwysig ym mhob rhan o'r economi. Mae Forbes yn amcangyfrif y bydd 50% o weithlu UDA yn llawrydd erbyn 2020. Yn 2015, nododd y Gymdeithas Gweithwyr Proffesiynol Annibynnol a Hunangyflogedig fod nifer y gweithwyr llawrydd wedi cynyddu o 1.40m i 1.91m yn y DU; cynnydd o 36% ers 2008.

Mae sawl ffordd o ddiffinio'r economi greadigol: dewisom ddefnyddio penawdau sector a'n galluogodd ni i wneud cymariaethau â setiau data eraill. Gwnaethom ddechrau gyda 'grwpiau economi greadigol' llywodraeth y DU, gan ystyried sut mae'r rheini sy'n gweithio yn yr economi greadigol yn eu disgrifio eu hunain.







Roedd hyn yn golygu eithrio llawer o'r ymarferwyr creadigol a gyflogir yn nhair prifysgol y ddinas, yn ogystal â nifer o weithgareddau eraill sy'n amlwg yn greadigol. Felly, er enghraifft, ystyrir pobl â sgiliau sydd â statws proffesiynol clir (fel penseiri neu dechnegwyr darlledu) yn rhan o'r economi greadigol, ond nid yw hynny'n wir am y rheini y mae eu sgiliau'n deillio o gymwysterau llai ffurfiol neu wasanaethau mwy cyffredin, megis trinwyr gwallt, seiri maen, garddwyr tirwedd, pobyddion, bragwyr, cogyddion a threfnwyr blodau. Roedd hefyd yn golygu eithrio nifer o 'bobl greadigol sefydledig', megis awduron neu ddylunwyr a gyflogir mewn sectorau eraill. Mae ein map wedi'i gyfyngu yn ôl y rhesymeg hon.

Dengys ein gwaith ymchwil ar 'bobl greadigol wedi ymwreiddio', a wnaed gan Samuel Woodford, sut mae gwaith creadigol yn mynd ymhell y tu hwnt i'r diwydiannau creadigol sydd wedi'u mapio yn yr adroddiad hwn. Siaradwyd ag amrywiaeth o bobl sy'n gwneud swyddi creadigol mewn sectorau'r tu allan i'r diwydiannau creadigol, y byddai llawer ohonynt yn amlwg yn elwa o gael mwy o ryngweithio o fewn clystyrau creadigol. Mae'r chwyldro digidol yn creu cyfleoedd yma, yn galluogi creadigrwydd i ddylanwadu ar y gweithle ehangach, gan ddod â phrosesau meddwl ac arferion mwy creadigol (ac felly mwy manteisiol yn fasnachol) yn eu sgil. Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu bod creadigrwydd yn tyfu fel rhwydwaith o wreiddiau, yn teimlo ac yn ymestyn yn araf i feysydd nad ydynt yn rhai creadigol yn draddodiadol wrth i'r diwylliant creadigol yr ydym i gyd yn byw ynddo dreiddio ymhellach.

# Cryfderau a gwendidau Caerdydd

## I gyd, nodwyd 2,788 o gwmnïau/ sefydliadau a gweithwyr llawrydd creadigol yn ardal Caerdydd. Mae rhai o'r cwmnïau hyn (fel y BBC) yn rhai mawr ac yn cyflogi nifer sylweddol o bobl. Mae'r rhan fwyaf yn fusnesau bach a chanolig.

Mae Fig. 1 yn dangos cyfanswm y busnesau a gweithwyr llawrydd creadigol ym mhob grŵp Diwydiannau Creadigol (yn ôl diffiniad DCMS), ochr yn ochr ag ystadegau cyflogaeth cenedlaethol sy'n deillio o Amcangyfrifon Economaidd Diwydiannau Creadigol DCMS. Dylid nodi nad yw'r data'n uniongyrchol gymharol gan fod meintiau amrywiol y cwmnïau creadigol yn golygu nad yw eu niferoedd yn gyfwerth â ffigurau cyflogaeth. Serch hynny, mae'n dangos lle mae gweithgarwch creadigol Caerdydd wedi'i grynhoi yn erbyn cefndir o ffigurau o bob rhan o'r DU.

Mae yna bedwar maes lle ymddengys bod gan Gaerdydd gryfderau arbennig (hynny yw, swm cymharol y gweithgarwch yn hytrach nag ansawdd yr allbwn). Yn y pedwar maes hwn, mae'r cyfrannau o gwmnïau a gweithwyr llawrydd yn uwch na chyfartaledd cyflogaeth y DU.

Y meysydd hyn yw:

### Cerddoriaeth, Perfformio a'r Celfyddydau Gweledol:

dyma'r sector creadigol mwyaf yng Nghaerdydd. Mae cyfran y gweithwyr llawrydd bedair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd cyflogaeth cenedlaethol a chyfran y cwmnïau/busnesau yn fwy na dwbl y cyfartaledd cyflogaeth cenedlaethol.

### Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth:

dyma'r ail sector creadigol mwyaf yng Nghaerdydd, sy'n adlewyrchu twf clwstwr ffilm a theledu mawr ym Mae Caerdydd wedi'i adeiladu o amgylch y BBC a chadwyn gyflenwi sylweddol (y mae rhywfaint ohoni yn gweithio o'r adeilad GloWorks cyfagos). Yn wir, mae presenoldeb llond dwrn o gyflogwyr mawr iawn yn sector Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth Caerdydd yn golygu ei bod yn bosib nad yw ein data'n cydnabod gwir faint y sector.

## Dylunio: Cynnyrch, Graffeg a Ffasiwn:

dyma'r trydydd sector creadigol mwyaf yng Nghaerdydd, lle mae cyfran y cwmnïau tua dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol, er bod canran y gweithgarwch llawrydd yn y sector hwn tua'r un peth â ffigurau cyflogaeth y DU.

## Crefftau:

er bod hwn yn un o'r sectorau llai yng Nghaerdydd, mae'n fwy sylweddol o lawer nag yng ngweddill y DU yn ôl cyfartaledd cyflogaeth, gyda chyfran y cwmnïau a'r gweithwyr llawrydd dros ddeng gwaith yn fwy na ffigurau cyflogaeth cyfartalog y DU.

Mae ffigurau Caerdydd ar gyfer gweithwyr llawrydd a busnesau yn y sector TG, Meddalwedd a Gwasanaethau Cyfrifiadurol yn is o lawer na'r niferoedd a ddangosir gan ddata'r DU. O ystyried pa mor amlwg mae technoleg yn yr economi greadigol, mae hyn yn cynrychioli her i economi greadigol y ddinas. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod sgiliau digidol yn amlwg yn bodoli mewn meysydd eraill (fel dylunio). Mae'r sectorau Hysbysebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus a Chyhoeddi hefyd yn ymddangos yn llai yng Nghaerdydd o gymharu â mannau eraill.

**Fig. 1: Maint cyffredinol y sectorau creadigol yng Nghaerdydd o gymharu â chyfartaledd y DU**



# Pa fath o weithgarwch a ble?

## Gwnaethom lwyddo i fapio'r rhan fwyaf (85%) o'r cwmnïau, busnesau a sefydliadau creadigol ac ychydig dros hanner (54%) o'r gweithwyr llawrydd ar draws 36 ward yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Er ein bod wedi dod o hyd i weithgarwch creadigol ym mhob ward, mae'r rhan fwyaf o gwmnïau, busnesau a sefydliadau creadigol (58%) wedi'u lleoli mewn dim ond pum ward, i gyd yn agos at neu'n cwmpasu canol y ddinas a Bae Caerdydd (gweler Fig. 2).

Mae'r crynodiadau mwyaf (35% o gwmnïau, busnesau a sefydliadau creadigol) yn nwy o'r wardiau mwyaf canolog: **Cathays** (18%), sy'n cynnwys canol y ddinas a'r ardal i'r gogledd (o amgylch y brifysgol) a'r gogledd-ddwyrain (Cathays) a **Butetown** (17%) sy'n ymestyn o ben deheuol canol y ddinas i Fae Caerdydd. Mae'r prif glystyrau eraill yn wardiau cyfagos **Glan-yr-afon** (sy'n cynnwys Pontcanna) (10%) a **Threganna** (8%).

Mae hyn yn awgrymu bod dau brif sbardun ar gyfer gweithgarwch creadigol. Yn ôl Phil George (Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru a chyn-Gyfarwyddwr Green Bay Media), y rhain yw 'lleoliad' a 'gwefr':

- **Agosrwydd at ganol y ddinas.** Mae Fig. 3 yn dangos cysylltiad clir rhwng lleoliadau canol y ddinas a gweithgarwch diwylliannol, gyda mwy o weithgarwch creadigol mewn ardaloedd fel **Adamsdown** a **Grangetown** nag yn y maestrefi.
- **Mae gweithgarwch creadigol yn dueddol o ymgasglu mewn cymdogaethau penodol.** Felly, er enghraifft, mae mwy o weithgarwch creadigol, a mwy o amrywiaeth o ran hynny, yn **Nhreganna** a **Phlasnewydd** (y Rhath yn fwy penodol) o gymharu ag ardaloedd o bellter tebyg i ganol y ddinas, fel **Ystum Taf** neu'r **Mynydd Bychan**. Ar ôl i glwstwr creadigol amlwg ddatblygu, mae'n creu canolbwynt ar gyfer gweithgarwch pellach.

Gwelsom y crynodiadau mwyaf yn y sectorau Cerddoriaeth, Perfformio a’r Celfyddydau Gweledol (68% yn y pum ward honno, gyda chlwstwr sylweddol yn Cathays), Hysbysebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus (61% yn Butetown a Glan-yr-afon), Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth (60%) a Chrefftau (60%). Mae’r crynodiadau lleiaf yn y sectorau Amgueddfeydd, Orielau a Llyfrgelloedd (40%), Pensaernïaeth (44%) a Chyhoeddi (46%).

Yn gyffredinol, mae ein canfyddiadau’n cadarnhau patrwm a welir mewn dinasoedd eraill: mae gweithgarwch creadigol yn dueddol o glystyru o fewn ac ar draws sectorau. Mae Fig. 2 hefyd yn awgrymu rhywfaint o glystyru fesul sector. Er enghraifft, er bod Cathays yn lleoliad amlwg ar gyfer sawl sector creadigol, yn y sector Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth mae’n dod ar ôl ardaloedd fel **Glan-yr-afon**, **Treganna** a **Butetown**.




**Fig. 2: Crynodiad cwmnïau/sefydliadau creadigol fesul ward**

# Fig. 3: Clystyrau creadigol Caerdydd




## Fig. 3: Deg ward uchaf ar gyfer cwmnïau creadigol

| | |
|---|---|
| 1 | Cathays |
| 2 | Butetown |
| 3 | Glan-yr-afon |
| 4 | Treganna |
| 5 | Plasnewydd |
| 6 | Sblot |
| 7 | Grangetown |
| 8 = | Adamsdown |
| 8 = | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais |
| 10 | Llandaf |




**Deg ward uchaf ar gyfer phobl greadigol lawrydd**

| | |
|---|---|
| 1 | Cathays |
| 2 | Plasnewydd |
| 3 | Glan-yr-afon |
| 4 | Treganna |
| 5 | Butetown |
| 6 | Grangetown |
| 7 | Penylan |
| 8 = | Adamsdown |
| 8 = | Llanisien |
| 10 | Y Mynydd Bychan |

Mae Fig. 3 yn dangos bod gweithwyr llawrydd yn dueddol o fod wedi'u clystyru yn yr un pum ward, ond nad ydynt mor grynodedig (mae 49% o weithwyr llawrydd wedi'u lleoli yn y pum ward hon, o gymharu â 58% o gwmnïau, busnesau a sefydliadau). Mae Fig. 3 hefyd yn awgrymu bod yna gryn dipyn o gydleoli, gyda chyfran y gweithwyr llawrydd yn cyfateb yn eithaf agos i'r cyfrannau o gwmnïau a sefydliadau creadigol. Er enghraifft, mae'r nifer uchaf o gwmnïau a gweithwyr llawrydd yn **Cathays**.

Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau i'w gweld o ran dosbarthiad, gyda chyfran uwch o lawer o weithwyr llawrydd ym **Mhlasnewydd** (12% - yr ail grynodiad mwyaf yn y ddinas ar ôl **Cathays**), a chyfran is yn Butetown (17% o fusnesau ond dim ond 6% o weithwyr llawrydd). Gwelsom hefyd fod nifer o weithwyr llawrydd wedi'u lleoli ym **Mhen-y-lan**, **Llanisien** a'r **Mynydd Bychan**, ond nid yw'r un o'r wardiau hyn yn y deg uchaf ar gyfer cwmnïau creadigol.

# Clystyrau creadigol fesul sector

## Hysbysebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus:

Y ddau brif glwstwr ar gyfer y sector hwn yw **Butetown** (23% o gwmnïau) a **Glan-yr-afon** (22% o gwmnïau). Mae'r rhan fwyaf o asiantaethau hysbysebu yn Butetown tra bod asiantaethau Cysylltiadau Cyhoeddus wedi'u rhannu rhwng Butetown a Glan-yr-afon.






Dan Tyte, Rheolwr Gyfarwyddwr Working Word:

"Mae'r sin cysylltiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn gymharol aeddfed ac yn esblygu'n gyson wrth i asiantaethau newydd ymuno ag eraill sydd wedi bod yn datblygu ymgyrchoedd creadigol ers degawdau. Mae'n gymuned gefnogol sy'n cael cyfle i wneud gwaith o ddifrif, diolch i ddatganoli a'r duedd gynyddol i fusnesau sector preifat sylweddoli nad yn Llundain y mae'r pethau diweddaraf yn digwydd. Ychwanegwch hynny at amrywiaeth allfeydd y cyfryngau sydd yma a sut mae dwyieithrwydd yn creu mwy o gyfleoedd rhaglennu, ac mae ein lleoliad, yn y Bae, yn ymddangos yn un doeth, yn agos at sedd y Llywodraeth. Lle mae gennym fantais dros ddinasoedd eraill yn y DU yw bod gan Brifysgol Caerdydd un o'r cyrsiau ôl-raddedig gorau yn y wlad, yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymarferwyr. Mae'r rhain yn aml yn fyfyrwyr rhyngwladol sy'n awyddus i wneud i Gaerdydd fod yn gartref iddynt, ac sy'n dod â safbwynt amheuthun o wahanol."

# Pensaernïaeth:

Penseiri yw un o'r grwpiau creadigol mwyaf gwasgaredig. Maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd amrywiol ledled y ddinas. Mae'r crynodiadau mwyaf o gwmnïau pensaernïaeth yn **Cathays** (16%), **Butetown** (12%) ac **Awstin Sant ym Mhenarth** (9%).



# Crefftau:

Er bod rhannau o'r sector crefftau yng Nghaerdydd yn anodd i'w categoreiddio, y categori sengl mwyaf oedd crefftau llaw (busnesau yn bennaf) a cherameg (gweithwyr llawrydd yn bennaf), ac yna gemwaith, tecstilau a chrefft coed. Er bod crefftau i'w canfod yn y rhan fwyaf o ardaloedd y ddinas, mae'r rhan fwyaf o fusnesau yng **Nglan-yr-afon** (23%) a **Cathays** (16%), gyda chlystyrau llai ym **Mhlasnewydd** (10%) a **Threganna** (8%).

Mae'r clwstwr o weithwyr cerameg yng **Nglan-yr-afon** a **Threganna** yn nodweddiadol; mae'r cymdogaethau hyn yn ardaloedd creadigol bywiog a fforddiadwy sy'n agos at ganol y ddinas. Ond mae hefyd yn pwyntio at bwysigrwydd seilwaith allweddol - yn arbennig presenoldeb stiwdios fel Fireworks.




Esbonia'r Ceramegydd Paul Wearing:

"Mae llawer yn digwydd yn ddiwylliannol yn ardal Treganna/Pontcanna, sy'n denu gweithwyr cerameg, felly mae'n bosib bod hyn yn rhan o'r rheswm dros y crynodiad sydd yma. Rydyn ni'n agos at y Bae, canol y ddinas a Chapter - sydd i gyd yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu amrywiol. Mae Fireworks yn rhywbeth arall sy'n denu llawer i'r ardal, ynghyd â'r ffaith bod stiwdios eraill yn yr ardal - Kings Road, Chapter a gofodau unigol eraill. Os byddai Fireworks mewn rhan arall o'r ddinas, mae'n siŵr y byddai llawer o'r aelodau yn byw yn yr ardal honno hefyd."

## Dylunio: Cynnyrch, Graffeg a Ffasiwn:

Mae llawer o’r gweithgarwch yn y maes hwn yn ymwneud â dylunio graffeg a dylunio gwefannau, ond fe ddaethom o hyd i nifer o gwmnïau dylunio mewnol hefyd. Maent wedi’u gwasgaru ledled y ddinas, gyda’r crynodiad mwyaf yn **Butetown** (16%) a **Cathays** (15%), a chlystyrau llai yng **Nglan-yr-afon** (8%) a **Sblot** (7%). Y categori mwyaf o weithwyr llawrydd yn y sector hwn yw modelau ffasiwn, ond ni nododd yr un ohonynt god post (am resymau dealladwy).




Mae Julian Sykes, Cyfarwyddwr Brandiau yn Hoffi yn esbonio:

“Pan sefydlon ni Hoffi ddeng mlynedd yn ôl dewision ni Drebiwt fel y lle i sefydlu ein stiwdio oherwydd y rhent cymharol rad a’i gysylltiadau trafnidiaeth da. Ers hynny mae’n ymddangos ei fod wedi tyfu ymhellach gyda nifer o asiantaethau dylunio hefyd yn symud i mewn i’r ardal neu’n adleoli yno. Yn fwyaf diweddar ymddengys bod twf mawr wedi bod mewn mannau gweithio ar y cyd, sydd fel petai wedi ehangu apêl y Bae ymhellach.”

## Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth:

Mae crynodiad o gwmnïau cynhyrchu teledu, ffilm a fideo yn **Butetown** (26%), ond mae clystyrau sylweddol yng **Nglan-yr-afon** (12%) a **Threganna** (11%) hefyd, gyda chlystyrau llai yn Cathays (8%) a **Llandaf** (6%).

Mae presenoldeb y BBC yng Nghaerdydd wedi denu clystyrau o gwmnïau cynhyrchu i'r ardal o amgylch ei stiwdios ym Mhorth y Rhath ac yn ardal Glan-yr-afon/ Treganna. Disgrifiodd cyn-Gyfarwyddwr Creadigol Green Bay Media, Phil George, y rhesymeg sy'n sail i'r clystyru hyn:

"Mae'r clwstwr ym Mhontcanna a Threganna yn adlewyrchu pwysigrwydd hanesyddol Chapter a phwysigrwydd y BBC i'r sector yng Nghaerdydd - fel y mae Pencadlys Drama BBC Porth y Rhath a'r adeilad GloWorks sydd wedi denu Gorilla, Boom, Sequence ac ati i CF10. Ac mae'r ffaith bod y BBC yn symud i ardal yr Orsaf Ganolog wedi annog eraill, fel Rondo, i symud yno hefyd. Yn gyffredinol, mae gan ardal y Bae hanes o weithgarwch ym maes y cyfryngau yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr 80au/dechrau'r 90au. Dyma pam fod Soundworks yn gweithio o Sgwâr Mount Stuart, a fu unwaith yn ganolfan allweddol i bobl greadigol ynghyd â Stryd Bute a Stryd Bute y Gorllewin. Mae lleoliad a gwefr yn cyfrannu'n fawr at glystyru."

Y grŵp mwyaf o gryn dipyn o ran gweithwyr llawrydd yn y sector hwn yw ffotograffwyr. Er na wnaeth llawer (tua hanner) nodi cod post, mae'r rheini a wnaeth yn eithaf gwasgaredig, gyda'r crynodiadau mwyaf yn y wardiau sy'n agos at ganol y ddinas: **Plasnewydd** (15%), **Treganna** (13%), **Glan-yr-afon** (13%) a **Grangetown** (12%). Mae'n ddiddorol nad yw'r rhestr hon yn cynnwys **Butetown**.



# Llawrydd: Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth:






Mae’r ffotograffydd Betina Skovbro yn esbonio pam:



“Yn gyffredinol, rydych chi’n byw yn rhywle y gallwch chi ei fforddio. Dwi ddim yn credu bod y swydd ei hun yn dylanwadu ar le rydych chi’n byw.”

Fel y rhan fwyaf o bobl greadigol, mae ffotograffwyr yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd â lefelau uchel o weithgarwch creadigol arall a/neu yn agos at ganol y ddinas.



## TG, Meddalwedd a Gwasanaethau Cyfrifiadurol:

O fewn y gwasanaethau TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol, y prif faes oedd datblygu meddalwedd. Mae'r busnesau hyn wedi'u gwasgaru ledled y ddinas, ond ceir clystyrau yn **Butetown** (20%), **Cathays** (15%) a **Glan-yr-afon** (10%). Mae'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd yn y sector hwn yn ddylunwyr gwefannau.

Mae Neil Cocker, cyd-sylfaenydd Cardiff Start, sy'n rhwydwaith busnesau digidol a thechnegol newydd, yn nodi bod cwmnïau datblygu meddalwedd yn dewis lleoliad ar sail 'sbardunau clystyru creadigol', fel y cyfle i rannu cyfleusterau, byw yn agos at ganol y ddinas a mynediad i fand eang o ansawdd.




Robert Lo Bue, rheolwr gyfarwyddwr y cwmni datblygu meddalwedd Applingua, am ei achos ei hun fel enghraifft:

> "Dewisais leoliad ar sail sawl ffactor: agosrwydd at gwmnïau eraill, agosrwydd at adnoddau i'w rhannu (fel ystafelloedd cyfarfod, siopau coffi, prif orsaf drenau), pa mor rhwydd yw hi i gymudo i'r gwaith i fi a'm cyflogeion, a pha mor fforddiadwy yw'r swyddfa."

# Amgueddfeydd, Orielau a Llyfrgelloedd:

Mae gan **Cathays** glwstwr sylweddol o lyfrgelloedd a chwmnïau a sefydliadau treftadaeth (25%), gan gynnwys amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth, llyfrgelloedd a gweithredwyr teithiau bws/cerdded. Mae mwyafrif y sefydliadau yn y sector cymharol fach hwn yn llyfrgelloedd sy'n cael eu hariannu gan y cyngor, sydd wedi'u gwasgaru ledled y ddinas.

Mae orielau masnachol yn cael eu dosbarthu'n rhan o'r sector Cerddoriaeth, Perfformio a'r Celfyddydau Gweledol. Er bod gan Gymru hanes diwylliannol cyfoethog, dim ond nifer fach o sefydliadau treftadaeth sydd yng Nghaerdydd sy'n ddigon mawr i ddal casgliadau cenedlaethol.



# Cerddoriaeth, Perfformio a’r Celfyddydau Gweledol:

Mae’r sector hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, o gwmnïau theatr i stiwdios recordio a pharlyrau tatŵ. Mae dros hanner y cwmnïau yn y sector mawr hwn mewn tair ward: mae’r clwstwr mwyaf o gwmnïau/busnesau yn **Cathays** (28%), gyda chlystyrau sylweddol yn **Butetown** (14%) a **Threganna** (11%) a chlwstwr llai ym **Mhlasnewydd** (8%) a **Glan-yr-afon** (8%).

Y sector hwn sydd â’r nifer fwyaf o weithwyr llawrydd yn economi greadigol Caerdydd, a hynny o bell ffordd. Maent wedi’u gwasgaru o amgylch y ddinas, gyda chlwstwr sylweddol yn wardiau cyfagos **Cathays** (18%) a **Phlasnewydd** (13%), a chlwstwr llai yn wardiau cyfagos **Treganna** (6%) a **Glan-yr-afon** (9%). Mae bron dwy ran o dair (63%) o weithwyr llawrydd yn y sector hwn yn gerddorion a/neu diwtoriaid cerddoriaeth. Ceir crynodiad mawr o diwtoriaid cerddoriaeth yn **Cathays** (23%) a **Phlasnewydd** (13%).



## Llawrydd: Cerddoriaeth, Perfformio a'r Celfyddydau Gweledol:



Esbonia'r cerddor, yr academydd a'r tiwtor Joe O'Connell y rhesymau dros y clystyru hyn:

"Mae llawer o bobl sy'n hyfforddi yn y coleg, neu efallai'r brifysgol, yn amlwg yn byw yn ardal Cathays tra eu bod yn hyfforddi. Mae rhent yn rhywbeth i'w ystyried hefyd; nid ydym ni gerddorion yn gwneud llawer o arian felly mae'n anodd dod o hyd i ardaloedd i fyw ynddynt. Mae ardaloedd fel Cyncoed a Phen-y-lan, a dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd, yn gyfoethog iawn - mae'r ardaloedd hyn yn rhai eithaf dosbarth canol ac mae mwy o blant yno'n cael gwersi preifat."



# Cyhoeddi:

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn y sector hwn yn gyhoeddwyr llyfrau neu bapurau newydd. Mae'r sector hwn wedi'i ddosbarthu'n fwy cyson ledled y ddinas, gyda chlystyrau yn **Cathays** (16%), **yr Eglwys Newydd** (12%) a **Butetown** (10%). Mae'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd yn y sector hwn yn awduron a newyddiadurwyr.





## Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu dinas greadigol

Nid yw'n ymddangos yn amser hir yn ôl pan ddechreuais ar rôl newydd ar y pryd, sef Cyfarwyddwr yr Economi Greadigol ym Mhrifysgol Caerdydd, ond yn anhygoel, mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers hynny a llawer o gynnydd wedi'i wneud. Gydag uchelgais o 'weithio gydag eraill fel bod Caerdydd yn brifddinas creadigrwydd', roedd ein nod yn uchel. Ein gweledigaeth gyffredinol oedd deall yr economi greadigol yn well ac ymgysylltu â hi er mwyn cefnogi a galluogi bywyd diwylliannol y ddinas a'r gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig ag ef.

Felly beth rydym wedi'i wneud? Yn ychwanegol at ein gwaith yn nodi ac yn mapio economi greadigol Caerdydd a rennir yn yr adroddiad hwn, buom yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhwydwaith dinas greadigol i unigolion, sefydliadau a chwmnïau sy'n gweithio yn economi greadigol Caerdydd. Gyda'r enw Caerdydd Creadigol, aeth y rhwydwaith yn fyw ym mis Hydref 2015. Ei nod yw dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau sy'n gweithio ar draws y diwydiannau creadigol a'r economi greadigol ehangach er mwyn cynnig manteision; o ddysgu a datblygu sgiliau i rwydweithio, meithrin gallu ac adeiladu clystyrau.

Yn ddiweddar dathlodd y rhwydwaith ei ben-blwydd cyntaf ac roedd llawer i lawenhau yn ei gylch. Yn ein blwyddyn gyntaf sefydlwyd gennym gymuned gref ar-lein, a oedd ei hun wedi'i seilio ar raglen helaeth o ddigwyddiadau, llawer ohonynt yn seiliedig ar fformiwla syml o 'ddangos a dweud' sydd wedi ein galluogi i gyfarfod a rhannu straeon aelodau anhygoel o dalentog ac amrywiol ein cymuned. Hefyd cyflawnon ni ein hymgyrch uchelgeisiol '52 Peth', unwaith eto i dynnu sylw at y bobl, y lleoedd a'r prosiectau sy'n digwydd ar draws y ddinas ac i rannu mwy o wybodaeth amdanynt. Mae aelodaeth ffurfiol Rhwydwaith Caerdydd creadigol wedi tyfu'n raddol i fwy na 700, wedi'u cefnogi gan rwydwaith cymdeithasol cryf o bron i 7,000 o ddilynwyr ar Twitter.

Ac nid dyna'r cyfan. Hefyd rydym wedi canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau newydd rhwng ymchwilwyr prifysgol a'r rheini sy'n weithgar yn yr economi greadigol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys amrywiaeth o bartneriaid a themâu newydd; o geisio cael cipolwg ar ymateb cynulleidfa Swn i ymchwilio i faterion y farchnad lafur yn yr economi greadigol.

Rydym wedi bod yn arsylwi ac yn treialu syniadau ar gyfer rhannu gweithfannau neu ganolfannau creadigol a fu'n tyfu'n aruthrol yn y ddwy flynedd diwethaf. Gydag amcangyfrif o 25 canolfan bellach yn gweithredu yn y dinas-ranbarth, mae Caerdydd Creadigol wedi gosod tasg iddo'i hun, sef darparu un ffynhonnell gwybodaeth am leoedd i ganolfannau ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol arall ar-lein am swyddi, cyfleoedd contractau a phartneriaethau.

Yn olaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried ffyrdd gwell o gasglu ac adrodd llu o storïau Caerdydd Creadigol mewn ffordd sy'n cyfoethogi stori greadigol a brand y ddinas. Drwy weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau, rydym wedi bod yn gweithio i ddeall y ffordd orau o adeiladu ar gyfres o 'sgyrsiau diwylliannol' a lansiwyd gan Gyngor y Ddinas yn 2014. Rydym yn gobeithio gwneud a rhannu cynnydd pellach gyda hyn yn gynnar yn 2017.

Mae partneriaid gwreiddiol Caerdydd Creadigol yn dri o sefydliadau diwylliannol craidd y ddinas: Cyngor Caerdydd, BBC Cymru Wales a Chanolfan Mileniwm Cymru. Mae eu cyfraniad a'u cefnogaeth wedi bod yn anhepgor i'w lwyddiannau hyd yma. Diolch diffuant iddynt am gredu yn y fenter hon ac am ei chefnogi.

Ar y cyfan, mae prifysgolion y DU wedi bod yn dda iawn am ymgysylltu disgyblaethau gwyddoniaeth â byd diwydiant i gynnal cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu. Yn fy marn i, mae gennym gyfleoedd sylweddol i wneud mwy ac i wneud yn well o fewn disgyblaethau'r celfyddydau a'r dyniaethau drwy fuddsoddiad Prifysgol Caerdydd yn y prosiect Economi Greadigol. Rydym yn edrych ymlaen at y ddwy flynedd nesaf o weithgarwch pan fyddwn yn datblygu ac yn cynllunio ail gam y gwaith hwn. Gwyliwch Caerdydd Creadigol oherwydd mae'n sicr o fod yn fywiog.

**Sara Pepper, Cyfarwyddwr yr Economi Greadigol, Prifysgol Caerdydd.**

